OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1732 (Cy.169)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - - *1 Gorffennaf 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - - *3 Gorffennaf 2008*
Yn unol ag erthygl
Yn dod i rym - - *1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 102, adran 108(2) ac adran 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**), ac wedi gwneud y cyfryw drefniadau y maent yn eu hystyried yn briodol ar gyfer ymgynghori yn unol ag adran 117 o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2008.

(2) Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) ar 1 Awst 2008 o ran disgyblion ym mlwyddyn gyntaf y cyfnod sylfaen;

(b) ar 1 Awst 2009 o ran disgyblion yn ail flwyddyn y cyfnod sylfaen;

(c) ar 1 Awst 2010 o ran disgyblion yn nhrydedd flwyddyn y cyfnod sylfaen; ac

(ch) ar 1 Awst 2011 o ran disgyblion ym mhedwaredd flwyddyn y cyfnod sylfaen.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Deddf 2002" ("*the 2002 Act*") yw Deddf Addysg 2002; ac

ystyr "y ddogfen" ("*the document*") yw'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ym mis Ionawr 2008 o dan yr enw "Cyfnod Sylfaen: Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru"(**3**).

(4) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(**1**) 2002 p.32.
(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan yr adrannau hyn eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o dan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**3**) ISBN Rhif 9780750444293.